# JENKINS, JOSEPH (1859 - 1929), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** Joseph Jenkins
**Dyddiad geni:** 1859
**Dyddiad marw:** 1929
**Rhiant:** mary Jenkins (née Howells)
**Rhiant:** John Jenkins
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert Morton Stanley Ellis

Ganwyd yn Nhan-y-chwarel, Cwmystwyth, 2 Tachwedd 1859, cofrestrwyd yn Llanbedr-Pont-Steffan, 3 Rhagfyr 1859. Ei dad oedd John Jenkins, mwynwr plwm, a'i fam oedd Mary, gynt Howells.

Yn ifanc aeth yn brentis dilledydd at John Lloyd, Pentre, Rhondda; ymaelododd yn Nazareth, ac yno y dechreuod bregethu. Addysgwyd ef yn ysgol William James, Canton, Caerdydd, academi Pontypridd, a Choleg Trefeca. Ordeiniwyd ef yng nghymdeithasfa Aberystwyth, 1887. Bugeiliodd eglwysi Caerffili, Spellow Lane (S.), Lerpwl, Ceinewydd, Salem (Dolgellau), Garregddu (Ffestiniog), a Llanymddyfri. Bu farw 27 Ebrill 1929, a chladdwyd ef ym mynwent capel Cwmystwyth. Yr oedd yn gyfrwng amlwg yn niwygiad 1904-5.

Llosgfynydd o bregethwr ydoedd - ar adegau yn ddi-fywyd, ac ar adegau yn hylif eirias; fel personoliaeth a phregethwr yr oedd yn hollol ar ei ben ei hun.

## Awdur

**Y Parchedig Robert Morton Stanley Ellis**, (1898 - 1966)

## Ffynonellau


*Y Drysorfa*, Gorffennaf 1929

gwybodaeth gan Parch. Elwyn Pryse, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, a gopïodd y cofnodion plwyf

gwybodaeth gan aelodau o'i deulu


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733722


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu